



Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr i'r cwrs Cyfryngau. Rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar i gael dechrau ar y daith hon drwy destunau diddorol gyda chi.

<https://www.cbac.co.uk/media/1akn3jh0/tag-astudio-r-cyfryngau-manyleb-addysgu-o-2017-cymru-2019.pdf>

Gwaith Cychwynnol

<https://www.youtube.com/channel/UCUKrxp4BcJrGLzmqAhCjASg>

Mae'r linc uchod yn mynd a chi i dudalen youtube 'Mrs Fischer'. Mae hi'n athrawes Cyfryngau ac yn arbenigwr mewn gwneud fidios gwybodaeth.

Dewiswch 3 fidio sydd o ddiddordeb i chi e.e. gemau fidio neu ffilmau, a gwylwch y fidios 3 gwaith. Ar ol hyn, gwnewch daflen wybodaeth ar gyfer bob fidio. Efallai gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth perthnasol ar y we.

Gosod gwaith ymchwil

https://www.youtube.com/results?search_query=photoshop+tutorial

Fel rhan o'r cwrs Cyfryngau bydd gofyn i chi greu cynhyrchiadau gwreiddiol, yn cynnwys cylchgronnau a phosteri. Ewch ati i wylwio rhai o'r fidios ar y linc uchod er mwyn dod i adnabod rhaglen gyfrifiadurol 'Photoshop'. Wrth wylwio'r fidios hoffwn i chi wneud cofnod o deitl y fidio ac hefyd nodiadau o'r prif bwyntiau rydych wedi eu dysgu. Os ydych chi'n barod yn hyderus ar photoshop, ceisiwch ddarganfod sgil nad ydych chi wedi ei ddefnyddio eto.

Rhestr wylwio sy'n cwmpasu'r pwnc

Un o adrannau bl.12 yw 'Ffilmau'. Byddai'n dda i chi ddod yn gyfarwydd gyda gwahanol genres o ffilmau trwy wylwio cyfres o ffilmau amrywiol.

Genre Plant yn eu harddegau(teen) e.e. Mean Girls
Genre Cymreig e.e. unrhyw ffilm wedi ei gynhyrchu yng Nghymru, dim iaith Cymraeg.

Adran B y papur arholiad yw 'Papurau newydd'. Byddai'n fyddiol iawn i chi geisio darllen 2 bapur newydd cyferbyniol pob dydd e.e. un top coch(Mirror) ac un taflen lydan(The Times). Does dim angen prynu papur, mae'r fersiynau ar lein yn ardderchog.

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Mae elfen fawr o'r cyfryngau yn gofyn am waith ysgrifennu esboniadol, cryf. Trwy ystyried hyn, byddai darllen llyfrau Cymraeg yn helpu i sicrhau safon eich iaith ysgrifenedig.

